

Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council/cyfarfod misol/monthly meeting(971)

Yr Hen Gapel,Pencader -- Ebrill/April 20th 2015 7.30pm.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Haulwen Lewis	Keith Lewis
Annette Davies	Melfyn Evans	Sian Thomas
C.Sir Linda Evans		

Clerc: Anita Evans

Ymddiheuriadau: Yvonne Griffiths,Marc Jones,Lynn Evans. Absennol—neb

Cyfieithydd: Susan Roberts

Ymwelwyr/Visitors: Bethan Edwards(RWE),PCSO.Eleri Bonning,nifer o'r cyhoedd /a number of the public

1)Croesawodd Val Davies y cadeirydd bawb i'r cyfarfod,a throsglwyddodd yr awennau i Bethan Edwards o RWE a oedd wedi cynnig dod i'r cyfarfod i roi'r diweddariad ar y cynlluniau i sefydlu Datblygaid Gwynt Gorllewin Brechfa.Diolchodd i'r Cyngor am dderbyn ei chynnig,ac fe ddywedodd fod torri coed wedi gorffen,a bod contractau yn mynd i'w rhoi mas diwedd eleni,a hynny i bobl lleol os yn bosib.Bwriad y cwmni yw cysylltu â'r cyhoedd ar bob rhan o'r datblygiad,ac hefyd gyda'r Cyngor Cymuned.Cynnigiodd Eirian Jones y ffordd orau o gysylltu fyddai drwy decstio.Ynghlŷn â'r Gronfa Gymunedol,bydd RWE yn cyflogi rhywun rhan amser i drefnu.Cynnigiodd Eirian Jones ymhellach,y byddai'n syniad hanfodol i'r cwmni gysylltu'n uniongyrchol â deiliaid cartrefi sy'n agos i'r datblygiad,er mwyn eu rhybuddio o loriau llydan ac ati.Diolchwyd i Bethan cyn iddi adael.

Val Davies,the chairperson,welcomed all to the meeting,and invited Bethan Edwards of RWE to address those present.She had offered to attend,to give an update on the development of Brechfa Forest West Wind Farm,and thanked the Council for accepting.The felling of trees is complete,and contracts will be given out before the end of this year,hopefully to local people.The intention of the company is to consult with the community at all stages,and also with the Community Council.Eirian Jones proposed that the best way of doing this would be through texting.Re the Community Benefit Fund,RWE will employ a part time officer to take charge of this.Again Eirian Jones proposed that neighbouring property owners be consulted directly on schedules such as wide loads etc.Bethan Edwards was thanked before she left.

2)Heddlu:-Doedd dim gyda PCSO Bonning i'w adrodd.Atgoffodd y Clerc fod problem loriau trwm yn gyrru'n gyflym drwy New Inn,a dywedodd Annette Davies fod plant ar sgwteri wedi ail ddechrau ar y ffyrdd.The PCSO had no information to give.The Clerk reminded her of the problem with lorries in New Inn,and Annette Davies said that the problem of scooter riding in the middle of our roads has re started.The PCSO was thanked before leaving the meeting.

972) 3) Aelodau'r cyhoedd—dim gwybodaeth i'w roi/members of the public—no information.

4) Cofnodion mis Mawrth/March minutes—cafwyd yn gywir ,Keith Lewis proposed they are correct,and Annette Davies seconded.

Materion yn codi/Matters arising:

1) Seddau'r Plwyf—dywedodd y Clerc fod yr archeb am 12 sedd fod cyrraedd Dydd Mercher 9 yb yng Nghlas y Dorlan, New Inn. Diolchwyd i Melfyn Evans am roi lle i'r seddau gael eu storio. Bydd Raymond Lewis, Keith Lewis, Haulwen Lewis, Melfyn Evans a'r Clerc yn cwrdd nos Fercher i fynd o gwmpas safleoedd i arolygu'r seddau presennol, a gwneud rhestr newydd. Parish benches—the order for the 12 bench should arrive on Wednesday, at Glas y Dorlan, New Inn, thanks to Melfyn Evans. Four of the Councillors, and the Clerk will meet on Wednesday night to inspect present bench locations, and make a new list.

2) Penrhwi, Alltwalis: Derbyniwyd e-bost oddiwrth y Cyngor Sir-o'r adran orfodaeth, ac adran iechyd y cyhoedd. Mae'r ddwy adran yn edrych fewn i'r mater yma. The enforcement dept. and public health are investigating the problem of waste at these premises.

3) Glanina: Mae Michael Roberts C. Sir Gar yn ymchwilio i'r sbwriel sy wedi ei daenu dros y cae drws nesa i'r safle yma. The County Council are investigating the high quantity of rubbish in the field adjoining this site.

4) Gary Carlsen (llwybrau)—wedi anfon e-bost arall yn datagan siom nad ydy'r C. Cymuned yn barod i fynd ymlaen gyda chwilio rhagor o wybodaeth iddo ynghlŷn â llwybr Glanawmor Isa. Dywedwyd mewn cyfarfod blaenorol mai arweiniad o'r C. Sir oedd hwn, a chredir mae nhw ddyle wneud yr ymchwil. Another e-mail will be sent to Gary Carlsen emphasising that the initial request regarding the footpath near Glanawmor Isa came from the C. Council, and it is felt that they should do the groundwork.

5) Cyrsiau Un Llais Cymru: bydd Cyngor Plwyfi Llangeler a Phenboyr yn ddigon parod i ymuno â ni mewn cwrs "preifat", os fydd y dyddiad swyddogol yn anghyfleus i ni.

6) HMRC: wedi anfon llyfryn talebau/a payment book has been received.

7) Cwmngwen, Pencader : mae C. Sir Linda Evans wedi cysylltu â'r adran arbennig sy'n torri coed/C.C.L. Evans has successfully arranged for the decaying tree on this site to be felled.

8) Speed Cushions, Pencader ; mae Tony Williams wedi cael gwybod am eu cyflwr gwael/problems here have been directed to Tony Williams C. County Council.

9) Llwybr Heddfryn New Inn --mae swyddog wedi bod mas i ddelio gyda cheir yn parcio ar y llwybr/an officer of the County Council has been out to speak to neighbours of the Heddfryn footpath, New Inn.

10) Gwynfryn, Gwyddgrug : Tony Williams wedi bod mas, Tony Williams has been on site regarding the rubbish.

11) Camera cylch cyfyng i'r C. Chwarae- Mae'r Clerc wedi chwilio am gwmnïau lleol, a bydd yn cysylltu cyn y cyfarfod nesa/Close circuit camera for the Play Corner—the Clerc will find quotes from 4 local companies before May.

12) Capel Troedyrhiw, Alltwalis—ers Ebrill 1af mae Emma Keller o'r Adran Orfodaeth wedi agor ffeil am y safle o dan Adran 215. A Section 215 has been opened regarding the Chapel in Alltwalis—due to it being detrimental to the area. Nothing will be done for a month, due to backlog of work.

13) Llwybrau i'w trasho: mae'r 2 ar restr y Rangers—ond mae'r rheini wedi eu torri o 8 i 4. The 2 footpaths in this Parish are on the Rangers' list for trashing. Manpower has been halved, and contractors are renewed every 5 years.

973)Materion yn codi: 14)Cornel Chwarae: Yn ystod y mis mae 3 cynrychiolydd wedi bod mas i roi prisiau am adnewyddu/gosod cyfarpar newydd o Lapsett,Playdale ac Ebie.Gan fod ond un wedi anfon prisiau,bydd rhaid cwrdd eto i drafod y ffordd ymlaen.There will have to be a special meeting to discuss plans for the refurbishment of the Play Corner as only one of the 3 representatives has forwarded quotes.

5)Adroddiad ariannol/financial report:

Cafwyd yn gywir—Raymond Lewis yn cynnig,ac Annette Davies yn eilio.Biliau i'w talu/bills to be paid: cyflogau arferol/wages;costau'r Clerc/Clerk costs from 18/02 to April 1st—£136.66;Trywydd/translation:£98.40;Val Davies-travelling:£13.50;Arolwg Cornel Chwarae/inspection of Play Corner(C.County C.)--£79.99;C.Sir Gar—seminar Eirian Jones--£15.00;Haydn Jones—gosod sticil/place a style both ends of the proposed Picnic Area---£90/00.

Cynnigiodd Annette Davies fod y biliau i'w talu,ac fe eiliodd Sian Thomas.

Annette Davies proposed that the bills be paid,and Sian Thomas seconded.

6)Adran Gynllunio/planning: gadawodd C.Sir L.Evans yr ystafell/C.C.L.Evans left the room.

a)Newydd.new: W/31852---variation of planning condition(s)—to extend by 1 year the time in which to submit application for reserved matters---Bro'r Hen Wr,Pencader i Idris Davies—James Davies.

Dim gwrthwynebiad/no objection.

7)Gohebiaeth/Correspondence: C.Sir Gar/C.County Council:

1)Ymgynghoriad --Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus a Thai Fforddadwy/Consultations on the possible introduction of Public Spaces Protection Orders and on Affordable Housing Development.

2)Cadeirydd newydd fforwm lleol Sir Gar yn cyflwyno ei hun/letter from new chairman of Carm.Local Access Forum.

3)Hyfforddiant Côt Ymddygiad/Code of Conduct training—new dates:June 4th and June 9th—Neuadd y Sir.

Eraill/other: 4)C.F.F.I.—Sir Gâr wedi anfon 2 docyn i'r Rali Flynyddol.

5)Un Llais Cymru,cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesa yn Llanddarog/minutes of last meeting,and next on 28/04.

6)Dau gopi o'r Llais/2 copies of the Voice received.

7)Ffurflenni'r Audit blynyddol wedi cyrraedd—Sian Thomas yn cynnig eu derbyn a Glyn Jones yn eilio/Audit forms have arrived.

8)U.F.Arall/A.O.B. (information only):

Eirian Jones-----arwydd ar bwys Windy Corner/Give Way/give way sign near Windy Corner junction still not fixed.

Glyn Jones -----=draen ar bwys y Green House wedi ei glirio ond un ar bwys Tabernacl a Siop y Sgwar heb;drains still need attention near Tabernacle Chapel and the shop on Pencader square.

Annette Davies-----arwydd Give Way yn agos i sgwar Llan'el yn cuddio'n y tyfiant(o gyfeiriad Western Power);arwydd 20m.y.awr ar bwys Tabernacl heb ei gywiro o hyd.The Give Way sign near Llan'el crossroads is hidden in overgrowth,and the one near Tabernacle Chapel in Pencader still has not been repaired.

Clerk----am atgoffa'r Cynghorwyr bydd y cyfarfod blynyddol am 8yh cyn cyfarfod misol Mai.Gofynnodd a ydyn ni eisiau plannu blodau yn y cafnau eleni.Cynnigiodd Melfyn Evans ein bod yn gwneud,ac i godi'r gost i £50.00 y cafn.Eiliodd Annette Davies.The Clerk reminded the Council that the AGM will take place at 8pm before the May monthly meeting.She also asked if the Council wanted the planters to be seen to.Melvyn Evans proposed that this be done,and to raise the cost to £50.00 per planter.Annette Davies seconded.

C.Sir L.Evans---pobl yn cael problem o hyd gyda'r system draffig un ffordd ar bwys y Siop Sglodion/there are still problems with the one way traffic system near the Chip Shop in Pencader.

Melfyn Evans----yn dymuno nodi fod y band eang wedi arafu eto yn ein hardal,ond mae'n debyg fod cynlluniau ar y gweill i'w wella.The broadband is slow,but there are plans to improve.

Gorffennodd y cyfarfod am 9yh/meeting finished at 9pm.

Cafwyd cyfarfod i drafod y seddau am 8.30yh ar Ebrill 28ain.Yn bresennol oedd:Glyn Jones,Yvonne Griffiths,Haulwen Lewis,Melfyn Evans,Val Davies,Raymond Lewis a'r Clerc.Roedd Melfyn Evans,Raymond Lewis,Keith Lewis a'r Clerc wedi mynd o gwmpas ar y noson cynt i wneud rhestr o'r anghenion.Mae dwy restr—un gyda'r seddau i'w hadnewyddu,a'r llall yn restr o'r rhai newydd.Cynnigiodd Melfyn Evans ein bod yn gofyn i Haydn Jones wneud y gwaith cywiro,golchi a pheintio,ac fe eiliodd Raymond Lewis.A meeting was held on 28/04 to discuss the repairing of present benches,and installing some new benches in the Parish.This followed Melfyn Evans,Raymond Lewis,Keith Lewis and the Clerk going round all the sites on the previous evening to finalise the list.Melfyn Evans proposed that the Council ask Haydn Jones to repair,wash and paint the benches which will be retained,and Raymond Lewis seconded.Installation of new benches has been put out to tender.

975)Ariannol/Financial:

Taliadau/payments:

Derbyniadau/receipts:

Haydn Jones	240.51	Mewn llaw 3/4/15	£71,918.56
Janet Jones	129.19	Ilog y Banc(5/3/15)	10.09
Anita Evans	341.86		
Costau'r Clerc			
(18/02—01/04)	136.66		
Trywydd	98.40		
HMRC	177.60		
Val Davies(costau teithio)	13.50		
Arolwg C.Chwarae	79.99		
U.LL.C.(seminar)	15.00		
Haydn Jones(sticle)	90.00		
Broxap(seddau)	6,288.00		

Cyfanswm: £7,610.71 £71,928.65

Mewn llaw Mai 5ed 2015: £64,317.94
